

# Iddyn nhw

Yn newid y drefn torri  
glaswellt er lles natur



Mae hi'n argyfwng natur arnon ni.

Mae perygl y bydd **1 o bob 6** o'r rhywogaethau a gafodd eu hasesu yng Nghymru yn diflannu. Rhaid gweithredu nawr i'w hachub.

Rydyn ni'n gallu gwneud ymylon ffyrdd, parciau a mannau gwyrdd eraill yn fwy cyfeillgar i fywyd gwyllt. Efallai bod glaswellt sy'n cael ei dorri'n fyr yn aml yn edrych yn dwt, ond does dim fawr o werth ynddo i natur. Mae glaswellt neu laswellt hir yn darparu bwyd a lloches ar gyfer bywyd gwyllt.

## Planhigion

Mae blodau gwyllt, gan gynnwys blodau gwyllt prin, yn tyfu ac yn cynhyrchu hadau, gan ganiatáu iddynt gynyddu o flwyddyn i flwyddyn.



## Infertebratau

Mae blodau gwyllt a glaswellt yn darparu bwyd i bryfed, gan gynnwys:

- cacwn,
- pryfed hofran
- chwilod
- glöynnod byw
- gwyfynod
- sioncynod y gwair.



Mae glaswellt hir yn rhoi cysgod iddynt ddodwy eu hwyau a chwblhau eu cylchoedd bywyd. Gall dolydd naturiol nodweddiadol gefnogi mwy na

**1,400** o rywogaethau o infertebratau.



**Mae newid y ffordd rydym yn torri glaswellt yn ymwneud ag arbed bywyd gwyllt, nid lleihau costau.**



## Mamaliaid

Mae ystlumod, llygod maes, llygod y gwair, llygon a draenogod yn bwyta'r planhigion a'r infertebratau a geir mewn dolydd.



## Amffibiaid

Mae brogaod a llyffantod yn bwydo ar infertebratau.



## Ymlusgiaid

Mae nadroedd defaid a madfallod yn bwyta infertebratau, ac mae nadroedd y gwair yn bwyta llyffantod.



## Adar

Mae adar bach fel llinosiaid yn bwyta hadau o flodau gwyllt. Mae adar eraill fel gwenoliaid yn bwyta pryfed. Mae cudyll coch, bwncath a thylluanod gwynion yn bwydo ar famaliaid bach.

**Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd.**



# Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

## Sut mae'n helpu i ymladd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd?

Mae planhigion yn amsugno carbon o'r atmosffer. Mae torri'r glaswellt yn llai aml yn caniatáu i blanhigion dyfu systemau gwreiddiau mwy, gan storio rhagor o garbon yn y pridd. Mae systemau gwreiddiau gwell yn awyru'r pridd yn well, sy'n cynyddu'r capasiti ar gyfer storio dŵr – ac o ganlyniad mae hefyd yn helpu i leihau llifogydd.

## Pam mae pryfed peillio yn bwysig?

Pryfed sy'n peillio llawer o'r cnydau amaethyddol sy'n fwyd i ni. Y nhw hefyd sy'n peillio'r planhigion gwyllt sy'n cynhyrchu'r hadau, y ffrwythau a'r cnau sy'n fwyd i adar a mamaliaid. Mae pryfed yn angenrheidiol i gynhyrchu bwyd. Mae llawer o'r pryfed peillio hyn yn prinhaus, yn bennaf am fod eu cynefin yn diflannu. Mae pryfed peillio angen blodau i fwydo arny'n nhw, llefydd i fyw a dodwy wyau ynddyn nhw, a chysgod i'w larfâu ddatblygu. Mae gwenyn mêl hefyd yn beillwyr. Yng Nghymru, anifeiliaid 'dof' ydyn nhw gan fwyaf a dydyn nhw ddim yn prinhaus.

## A fydd glaswellt hir yn effeithio ar ddiogelwch ar y ffyrdd?

Mae'n bwysig ein bod yn cadw'r ffyrdd yn ddiogel ar gyfer pob defnyddiwr. Ni fydd ymylon sy'n fioamrywiol yn golygu y bydd y ffyrdd yn llai diogel. Mae rhai ardaloedd lle mae angen gweld ac ar bwys cyffyrdd yn cael eu torri yn fwy aml i sicrhau diogelwch.

## On'd yw e'n edrych yn anniben a blêr!

Mae rhyw harddwch anffurfiol i dir lle mae'r glaswellt yn cael tyfu'n hir. Ar ôl blodeuo, mae'r dolydd hyn yn gallu edrych yn anniben a blêr wrth i'r planhigion ddefnyddio'u hegni i hadu a chynhyrchu blodau'r flwyddyn nesaf. Maen nhw'n dal i fod yn hynod bwysig i bryfed peillio, pryfed eraill, adar a mamaliaid fel y draenog.

## Sut mae 'torri a chasglu' yn helpu i greu dôl frodorol?

Dôl yw cae sy'n llawn blodau gwyllt brodorol a glaswellt mân nad yw'n cael ei thorri tan ddiwedd yr haf.

Trwy 'dorri a chasglu', rydym yn efelychu'r ffordd draddodiadol o reoli dôl wair (gweirglodd). Mae'n golygu casglu'r torion ar ôl eu torri. Drwy hynny, mae'r hadau'n gallu tyfu ar y tir mwy agored. Mae'n lleihau ffrwythlondeb y pridd gan arafu tyfiant y borfa sydd ag angen llawer o faethynnau arnyn nhw ac sy'n tagu blodau gwyllt a'r glaswellt mân. Mae gadael i flodau gwyllt dyfu a hadu yn eu galluogi i gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Bydd hyn yn cymryd amser ac mae'n bwysig bod yn amyneddgar.

## Ble ca i ddysgu mwy am ddolydd?

Mae rhagor o wybodaeth am ddolydd ar gael ar Hyb

Dolydd Plantlife:

<https://meadows.plantlife.org.uk/cy/home-2/am-ddolydd/>

## Pa flodau gwyllt wela' i?

I chi gael dysgu enwau'r blodau gwyllt y gallech eu gweld, mae 'Natur Wylt' wedi paratoi canllaw i rai o'r blodau gwyllt pwysicaf i

bryfed peillio Cliciwch ar y canllaw: [www.monlife.co.uk/outdoor/nature-isnt-neat/training-and-resources/](http://www.monlife.co.uk/outdoor/nature-isnt-neat/training-and-resources/)

## Beth am ein mannau chwarae?

Bydd mannau hamdden yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd, a bydd lleiniau'n cael eu torri ar gyfer chwarae a phicnics. Bydd ardaloedd o flodau gwyllt a phorfa'n rhoi cyfleoedd i blant fwynhau natur.

## A fydd rhagor o sbwriel?

Mae taflu neu ollwng sbwriel mewn unrhyw le mae gan y cyhoedd fynediad ato yn drosedd. Byddwn yn parhau i fonitro ein mannau gwyrdd ar gyfer sbwriel.

## Beth am faw cŵn?

Cyfrifoldeb perchennog y ci yw casglu'r baw, ni waeth beth yw uchder y glaswellt neu'r amgylchedd. Os yw rhywun yn gadael i'w gi faeddu a pheidio â chodi'r baw, mae'n hynny'n drosedd. Bydd llawer o lwybrau yn cael eu torri trwy'r dolydd, felly bydd digonedd o lwybrau ar gyfer mynd â'ch cŵn am dro.

## Pam nad ydych yn hau cymysgeddau o hadau 'blodau gwyllt' unflwydd?

Gall cymysgedd o hadau blodau unflwydd edrych yn lliwgar ond mae ganddyn nhw anfanteision.

Er eu bod yn cael eu galw'n 'flodau gwyllt', yn aml nid ydynt yn rhai brodorol. Maen nhw'n gallu bod yn ddrud, mae angen gwaith i'w cynnal ac o bosibl, bydd angen eu hau bob blwyddyn. Yn aml mae chwynladdwyr yn cael eu defnyddio i glirio'r tir cyn eu hau. Trwy eu hau, ydych chi ddim yn helpu i ddiogelu'n bywyd gwyllt brodorol. Nid ydyn nhw'n cynnal yr holl infertebratau sy'n byw ar flodau dolydd brodorol.

## Beth yw Lleoedd Lleol ar gyfer Natur?

Rhaglen o dan ofal Llywodraeth Cymru yw Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LILIN), i greu *Natur ar eich Stepen Drws*. Mae wedi'i gynllunio i adfer a gwella natur lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n darparu cyllid a chymorth i gefnogi a gweithredu amrediad eang o gamau lleol, o becynnau tyfu cymunedol bach i brosiectau mwy i greu dolydd newydd neu 'ardd synhwyrau' drefol. Mae LILIN yn

gweithio gyda phartneriaid lleol a chymunedau i ddatblygu'r prosiectau natur hyn.

## Beth yw Partneriaethau Natur Lleol?

Mae'r Bartneriaeth Natur Leol (PNL) yn rhoi cyngor ar fioamrywiaeth, yn gwella cyfleoedd cyllido, yn datblygu grwpiau cydweithredol ac yn grymuso grwpiau cymunedol i weithredu. Mae'r rhwydwaith PNLau'n cefnogi adferiad natur yng Nghymru, ac mae'n bwynt cyswllt hanfodol ar gyfer cyngor ac arbenigedd. Mae cydgysylltwyr ym mhob rhan o Cymru. Dysgwch fwy yn [www.biodiversitywales.org.uk/Lleoli-chi](http://www.biodiversitywales.org.uk/Lleoli-chi)

## Beth yw'r cynllun Caru Gwenyn?

Cafodd y cynllun Caru Gwenyn ei lansio gan Dasglu Cynllun Gweithredu Cymru ar Bryfed Peillio. Mae'r cynllun yn annog pobl i helpu pryfed peillio, nid gwenyn yn unig. Trwy ymuno â'r cynllun, mae pobl yn ymrwymo i roi i bryfed peillio beth sydd ei angen arnynt i orosi a ffynnu. Am ragor o wybodaeth, ewch i [www.biodiversitywales.org.uk/Caru-Gwenyn](http://www.biodiversitywales.org.uk/Caru-Gwenyn)

## A oes rheswm cyfreithiol dros adael i'r glaswellt dyfu?

Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, yn ei gwneud yn ofynnol o dan y gyfraith i awdurdodau cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth.

## Cymerwch ran neu Dwedwch eich dweud!

Rydyn ni'n credu bod torri'r glaswellt yn llai aml yn gyfraniad allweddol y gallwn ni ei wneud wrth fynd i'r afael â'r argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd. Fodd bynnag, rydyn ni'n gwerthfawrogi, mewn rhai ardaloedd, y bydd angen inni adolygu ein trefniadau rheoli er mwyn sicrhau bod ein mannau gwyrdd yn gweithio ichi ac i natur.

Hoffem glywed eich barn.

Cysylltwch:

[ebost:parks@cardiff.gov.uk](mailto:ebost:parks@cardiff.gov.uk)

[www.outdoorcardiff.com/cy/bioamrywiaeth/](http://www.outdoorcardiff.com/cy/bioamrywiaeth/)



